O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 104

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2026

Gwnaed *25 Mawrth 2026*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 104

The National Health Service (Direct Payments) (Wales) Regulations 2026

Made *25 March 2026*

Coming into force in accordance with regulation 1(2) and (3)

£14.80

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 104

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwneud taliadau uniongyrchol gan Weinidogion Cymru am ofal iechyd at ddibenion darparu gwasanaethau iechyd penodol o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Mae rheoliad 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch dod â'r Rheoliadau hyn i rym. Mae rheoliad 1(2) yn darparu bod y mwyafrif o'r darpariaethau yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026 ac mae'n cynnwys yn benodol y diffiniad o "plentyn" yn rheoliad 2(1) sy'n ofynnol i nodi pa ddarpariaethau a fydd yn dod i rym ar 1 Hydref 2027.

Mae rheoliad 1(3) yn darparu bod rheoliad 4 (taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad â phlentyn) ac unrhyw ddarpariaeth arall, i'r graddau y mae'n ymwneud â phlentyn, yn dod i rym ar 1 Hydref 2027.

Mae rheoliadau 3 i 5 yn pennu'r cleifion y caniateir gwneud taliadau uniongyrchol iddynt neu mewn cysylltiad â hwy, ac mae'r Atodlen yn pennu'r personau na chaniateir gwneud taliadau uniongyrchol iddynt neu mewn cysylltiad â hwy (personau a eithrir). Mae rheoliad 6 yn cynnwys darpariaeth ynghylch cleifion yr oedd ganddynt alluedd meddyliol i gydsynio i daliadau uniongyrchol gael eu gwneud, ond nad oes ganddynt y galluedd hwnnw mwyach, ac mae rheoliad 7 yn cynnwys darpariaeth ynghylch cleifion sy'n ennill neu'n adennill galluedd meddyliol.

Mae rheoliad 8 yn darparu ar gyfer enwebu person (enwebai) i gael a gweinyddu taliadau uniongyrchol ar ran claf.

Mae rheoliadau 9 i 12 yn gosod camau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gasglu'r wybodaeth y mae ei hangen arnynt er mwyn gwneud penderfyniad (yn unol â rheoliad 13) ynghylch pa un ai i wneud taliadau uniongyrchol i glaf neu mewn cysylltiad ag ef.

Mae rheoliad 9 yn cynnwys darpariaeth ynghylch y personau perthnasol y caiff Gweinidogion Cymru ymgynghori â hwy cyn penderfynu pa un ai i wneud taliad uniongyrchol ai peidio.

Mae rheoliad 10 yn pennu'r wybodaeth y mae ei hangen ar Weinidogion Cymru er mwyn asesu gallu claf, ei gynrychiolydd neu ei enwebai i reoli taliadau uniongyrchol, ac mae rheoliad 11 yn pennu'r gofynion ar gyfer cynllun gofal ac yn nodi rôl y cydgysylltydd gofal.

Mae rheoliad 12 yn manylu ar yr wybodaeth, y cyngor neu'r cymorth arall y mae rhaid i Weinidogion Cymru ei darparu neu ei ddarparu cyn i benderfyniad gael ei wneud mewn cysylltiad â thaliad uniongyrchol. Mae hefyd yn nodi'r gofynion ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth arall mewn achosion pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu gwneud taliadau uniongyrchol.

Rhaid i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad ynghylch pa un ai i wneud taliadau uniongyrchol yn unol â rheoliad 13.

Mae rheoliadau 14 a 15 yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amodau y caniateir eu gosod ar y person sy'n cael ac yn rheoli'r taliad uniongyrchol (y talai); caiff hwn fod y claf, neu ei gynrychiolydd neu ei enwebai.

Mae rheoliad 16 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyflenwi gwybodaeth y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ei chael ac mae rheoliad 17 yn gwneud darpariaeth ynghylch swm taliadau uniongyrchol.

Mae rheoliad 18 yn gwneud darpariaeth ynghylch monitro ac adolygu taliadau uniongyrchol ac mae rheoliadau 19 i 21 yn darparu ar gyfer ad-dalu, adennill a stopio taliadau uniongyrchol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar y wefan ar https://www.llyw.cymru.

2026 Rhif 104

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2026

Gwnaed *25 Mawrth 2026*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 10C(1) i (4), a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn(**2**).

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan adran 203(6) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, gosodwyd drafft o'r offeryn statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2026—

(a) rheoliad 2(1) i'r graddau y mae'n diffinio "plentyn", a

(b) yn ddarostyngedig i baragraff (3), y darpariaethau sy'n weddill o'r Rheoliadau hyn (gan gynnwys gweddill rheoliad 2).

(3) Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2027—

(a) rheoliad 4 (taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad â phlentyn), a

(b) unrhyw ddarpariaeth arall o'r Rheoliadau hyn i'r graddau y mae'n ymwneud â phlentyn.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

(**1**) 2006 p. 42 ("Deddf 2006"); mewnosodwyd adran 10C yn Neddf 2006 gan adran 24(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (dsc 1). *Gweler* adran 206(1) o Ddeddf 2006 am y diffiniad o "regulations".

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 203(6) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

ystyr “claf” (“*patient*”) yw person y caniateir gwneud taliadau uniongyrchol iddo neu mewn cysylltiad ag ef yn unol â rheoliadau 3 i 7;

ystyr “cyfrif a reolir” (“*managed account*”) yw cyfrif a weinyddir gan berson heblaw'r talai at ddiben—

(a) dal y taliadau uniongyrchol ar ran y talai, a

(b) cymhwyso'r taliadau uniongyrchol yn unol â chyfarwyddiadau'r talai;

mae i “cyfrifoldeb rhiant” yr ystyr a roddir i “parental responsibility” yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989 (ystyr cyfrifoldeb rhiant)(**3**);

ystyr “cynllun gofal” (“*care plan*”) yw cynllun a lunnir yn unol â rheoliad 11 (cynllun gofal a chydgysylltydd gofal);

ystyr “cynrychiolydd” (“*representative*”) yw—

(a) yn achos claf y mae unrhyw ddirprwy wedi ei benodi mewn cysylltiad ag ef gan y Llys Gwarchod o dan adran 16(2)(b) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005(**4**) (pwerau i benodi dirprwyon) i wneud penderfyniadau ar ran y claf hwnnw mewn perthynas â materion y caniateir gwneud taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad â hwy, unrhyw ddirprwy o'r fath,

(b) yn achos claf sydd wedi penodi unrhyw roddai atwrneiaeth arhosol o fewn ystyr adran 9 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (atwrneiaethau arhosol) i wneud penderfyniadau ar ran y claf hwnnw mewn perthynas â materion y caniateir gwneud taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad â hwy, unrhyw roddai o'r fath,

(c) yn achos claf a greodd atwrneiaeth barhaus o fewn ystyr Atodlen 4 i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (darpariaethau sy'n gymwys i atwrneiaethau parhaus presennol), sydd wedi ei chofrestru yn unol â pharagraffau 4 a 13 o'r Atodlen honno, neu y mae cais ar gyfer cofrestriad o'r fath wedi ei wneud mewn cysylltiad â hi, unrhyw atwrnai y mae'r atwrneiaeth wedi ei breinio mewn cysylltiad ag ef(**5**),

(d) yn achos plentyn, unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn,

(e) yn achos claf 16 oed neu drosodd ond sydd heb alluedd ac y mae person â chyfrifoldeb rhiant mewn cysylltiad ag ef, unrhyw berson o'r fath sydd â chyfrifoldeb rhiant, neu

(f) yn achos claf y mae person wedi ei benodi mewn cysylltiad ag ef o dan reoliad 5(4) (taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad â chleifion sydd heb alluedd), y person hwnnw;

ystyr “cynrychiolydd personol” (“*personal representative*”) yw ysgutor neu weinyddwr, am y tro, glaf ymadawedig;

ystyr “Deddf 2006” (“*the 2006 Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

(**3**) 1989 p. 41 (“Deddf 1989”). Caiff person fod â chyfrifoldeb rhiant dros berson nad yw'n blentyn at ddibenion y Rheoliadau hyn; *gweler* adran 105 o Ddeddf 1989; yn rhinwedd yr adran honno, ystyr “child” (“*plentyn*”), at ddibenion Deddf 1989, yn ddarostyngedig i baragraff 16 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno, yw person o dan 18 oed.

(**4**) 2005 p. 9.

(**5**) Nid yw'n bosibl gwneud atwrneiaeth barhaus mwyach; mae hyn wedi bod yn wir ers 1 Hydref 2007. Fodd bynnag, mae'r rhai sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd neu sydd wedi eu gwneud ond nad ydynt wedi eu cofrestru ar hyn o bryd yn parhau i fod yn ddilys.

ystyr "Deddf 2014" ("*the 2014 Act*") yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**6**);

mae i "enwebai" ("*nominee*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 8 (person enwebedig);

mae i "gwasanaeth rheoleiddiedig" ("*regulated service*") yr ystyr a roddir yn adran 2 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**7**), ac Atodlen 1 iddi;

ystyr "person a eithrir" ("*excluded person*") yw person y mae'r Atodlen yn gymwys iddo (personau na chaniateir gwneud taliadau uniongyrchol iddynt neu mewn cysylltiad â hwy);

ystyr "plentyn" ("*child*") yw claf nad yw wedi cyrraedd 16 oed;

ystyr "Rhaglen Mesur Plant Cymru" ("*Child Measurement Programme for Wales*") yw'r rhaglen a sefydlwyd i fesur taldra a phwysau plant 4 i 5 oed at ddiben monitro cyffredinrwydd bod o dan bwysau, bod dros bwysau a gordewdra yn y boblogaeth yn unol ag Atodlen 1 i Ddeddf 2006(**8**);

ystyr "rheoli" ("*manage*"), mewn perthynas â thaliad uniongyrchol, yw cael a dal y taliad a sicrhau y darperir y gwasanaethau a bennir yng nghynllun gofal y claf, yn unol ag unrhyw amodau a gymhwysir o dan y Rheoliadau hyn;

ystyr "talai" ("*payee*") yw person sy'n gyfrifol am reoli taliadau uniongyrchol, sef naill ai'r claf neu gynrychiolydd neu enwebai sy'n gweithredu ar ran y claf;

ystyr "taliad uniongyrchol gofal cymdeithasol" ("*social care direct payment*") yw taliad i sicrhau gwasanaethau i ddiwallu angen am ofal a chymorth a wneir—

(a) hyd nes y daw adran 49A o Ddeddf 2014(**9**) i rym, yn rhinwedd rheoliadau a wneir o dan adrannau 50 i 53 o'r Ddeddf honno, a

(b) ar ôl i adran 49A o Ddeddf 2014 ddod i rym, yn rhinwedd rheoliadau a wneir o dan yr adran honno;

ystyr "taliadau uniongyrchol" ("*direct payments*") yw taliadau y caiff Gweinidogion Cymru eu gwneud i glaf, neu mewn cysylltiad â'r claf, i gynrychiolydd neu enwebai at ddiben sicrhau bod unrhyw beth y mae adran 10B(3) o Ddeddf 2006(**10**) yn cyfeirio ato yn cael ei ddarparu i'r claf.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at berson heb alluedd yn gyfeiriadau at berson sydd heb alluedd o fewn ystyr Deddf Galluedd Meddyliol 2005(**11**).

Cleifion y caniateir gwneud taliadau uniongyrchol iddynt

3.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud taliadau uniongyrchol i glaf—

(a) nad yw'n berson a eithrir, a

(**6**) 2014 dccc 4.
(**7**) 2016 dccc 2. *Gweler* O.S. 2017/1264 (Cy. 295), 2019/165 (Cy. 41), 2019/757 (Cy. 142), 2019/762 (Cy. 145) a 2023/1327 (Cy. 238) am eithriadau.
(**8**) *Gweler* paragraffau 7A a 7B o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006; mewnosodwyd paragraffau 7A a 7B gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14), adran 144; ac fe'u diwygiwyd gan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (mccc 1), adran 72 ac Atodlen 1, paragraff 26, a chan Ddeddf Diogelu Data 2018 (p. 12), adran 211 ac Atodlen 19, paragraff 119, yn y drefn honno.
(**9**) Mae adran 49A wedi ei mewnosod yn rhagolygol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gan adran 20(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025.
(**10**) Mewnosodwyd adran 10B yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gan adran 24(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025.
(**11**) 2005 p. 9.

(b) sy'n cydsynio i daliadau uniongyrchol gael eu gwneud iddo.

(2) Wrth benderfynu a ddylid gwneud taliadau uniongyrchol i glaf sy'n dod o fewn paragraff (1), rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i—

(a) a yw taliadau uniongyrchol yn briodol ar gyfer claf sydd â chyflwr y claf hwnnw,

(b) effaith y cyflwr hwnnw ar fywyd y claf hwnnw, ac

(c) a yw taliadau uniongyrchol yn rhoi gwerth am arian.

(3) Ni chaniateir gwneud taliadau uniongyrchol i glaf sy'n dod o fewn paragraff (1) ond—

(a) os yw'r claf yn 16 oed neu drosodd, a

(b) os oes gan y claf alluedd i gydsynio i daliadau uniongyrchol gael eu gwneud iddo.

Taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad â phlentyn

4.—(1) Caniateir gwneud taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad â phlentyn—

(a) os nad yw'r plentyn yn berson a eithrir, a

(b) os oes gan y plentyn gynrychiolydd sy'n cydsynio i daliadau uniongyrchol gael eu gwneud mewn cysylltiad â'r plentyn.

(2) Wrth benderfynu a ddylid gwneud taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad â phlentyn sy'n dod o fewn paragraff (1), rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i—

(a) a yw taliadau uniongyrchol yn briodol ar gyfer plentyn sydd â chyflwr y plentyn hwnnw,

(b) effaith y cyflwr hwnnw ar fywyd y plentyn, ac

(c) a yw taliadau uniongyrchol yn rhoi gwerth am arian.

(3) Rhaid i gynrychiolydd y caniateir gwneud taliadau uniongyrchol iddo mewn cysylltiad â phlentyn—

(a) cytuno i weithredu ar ran y plentyn mewn perthynas â'r taliadau uniongyrchol,

(b) gweithredu er lles pennaf y plentyn wrth sicrhau darpariaeth gwasanaethau y gwneir y taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad â hwy,

(c) bod yn gyfrifol fel y parti contractio am yr holl drefniadau contractiol yr ymrwymir iddynt er budd y plentyn ac a sicrheir drwy gyfrwng y taliadau uniongyrchol, a

(d) defnyddio'r taliadau uniongyrchol yn unol â chynllun gofal y plentyn.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo claf yn cyrraedd 16 oed.

(5) Pan fo paragraff (4) yn gymwys, rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl, adolygu'r arfer o wneud y taliadau uniongyrchol yn unol â rheoliad 18.

(6) Pan fo paragraff (4) yn gymwys, caiff Gweinidogion Cymru barhau i wneud taliadau uniongyrchol i'r cynrychiolydd neu'r enwebai yn unol â chynllun gofal y claf—

(a) os yw'r claf yn cydsynio i'r taliadau uniongyrchol barhau i gael eu gwneud, a

(b) os yw'r claf a'r cynrychiolydd neu'r enwebai yn cytuno y bydd y cynrychiolydd neu'r enwebai yn parhau i reoli'r taliadau uniongyrchol ar ran y claf.

(7) Pan fo paragraff (4) yn gymwys ac na fo'r claf yn cydsynio i daliadau uniongyrchol barhau i gael eu gwneud, rhaid i Weinidogion Cymru stopio gwneud y taliadau uniongyrchol.

Taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad â chleifion sydd heb alluedd

5.—(1) Caniateir gwneud taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad â chlaf, heblaw plentyn, sydd heb alluedd i gydsynio i daliad uniongyrchol gael ei wneud—

(a) os nad yw'r claf hwnnw'n berson a eithrir, a

(b) os oes gan y claf hwnnw gynrychiolydd sy'n cydsynio i daliadau uniongyrchol gael eu gwneud mewn cysylltiad â'r claf hwnnw.

(2) Wrth benderfynu a ddylid gwneud taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad â chlaf sy'n dod o fewn paragraff (1), rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i—

(a) a yw taliadau uniongyrchol yn briodol ar gyfer claf sydd â chyflwr y claf hwnnw,

(b) effaith y cyflwr hwnnw ar fywyd y claf hwnnw, ac

(c) a yw taliadau uniongyrchol yn rhoi gwerth am arian.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i glaf, heblaw plentyn, sydd heb alluedd i gydsynio i daliadau uniongyrchol gael eu gwneud iddo ond sy'n glaf nad oes cynrychiolydd mewn cysylltiad ag ef.

(4) Pan fo paragraff (3) yn gymwys, caiff Gweinidogion Cymru benodi person y maent yn ystyried ei fod yn addas i weithredu fel cynrychiolydd ar gyfer y claf hwnnw.

(5) Rhaid i gynrychiolydd y gwneir taliadau uniongyrchol iddo mewn cysylltiad â chlaf—

(a) cytuno i weithredu ar ran y claf mewn perthynas â'r taliad uniongyrchol,

(b) gweithredu er lles pennaf y claf wrth sicrhau darpariaeth gwasanaethau y gwneir y taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad â hwy,

(c) bod yn gyfrifol fel y parti contractio am yr holl drefniadau contractiol yr ymrwymir iddynt er budd y claf ac a sicrheir drwy gyfrwng y taliadau uniongyrchol, a

(d) defnyddio'r taliadau uniongyrchol yn unol â chynllun gofal y claf.

(6) Wrth benderfynu, at ddibenion y rheoliad hwn, beth sydd er lles pennaf claf, heblaw plentyn, rhaid i'r cynrychiolydd gydymffurfio â'r gofynion a bennir yn is-adrannau (1) i (7) o adran 4 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (lles pennaf).

Taliadau uniongyrchol ar gyfer cleifion yr oedd ganddynt alluedd ond nad oes ganddynt alluedd mwyach

6.—(1) Pan fo claf wedi bod yn cael taliadau uniongyrchol ar y sail ei fod yn gymwys i wneud hynny o dan reoliad 3, ond bod Gweinidogion Cymru yn credu'n rhesymol nad oes gan y claf y galluedd angenrheidiol mwyach i gydsynio i daliadau uniongyrchol gael eu gwneud, mae paragraff (2) yn gymwys.

(2) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, caiff Gweinidogion Cymru barhau i wneud taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad â'r claf hwnnw—

(a) os ydynt wedi eu bodloni bod diffyg galluedd y claf yn debygol o fod dros dro, a

(b) naill ai—

(i) os yw cynrychiolydd neu enwebai yn cytuno, yn unol â rheoliad 5(5)(a) (cynrychiolwyr) neu reoliad 8(4)(a) (enwebeion), i weithredu ar ran y claf mewn cysylltiad â'r taliadau uniongyrchol neu i gael y taliadau uniongyrchol ar ran y claf, neu

(ii) os yw enwebai, a benodir gan Weinidogion Cymru gan roi sylw i arwydd a roddir gan y claf o dan reoliad 8(2), yn cytuno i gael y taliadau uniongyrchol ar ran y claf, ac

(c) os yw'r taliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud yn ddarostyngedig i'r amod bod rhaid i'r cynrychiolydd neu'r enwebai ganiatáu i'r claf reoli'r taliadau uniongyrchol ei hun am unrhyw gyfnod y mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni mewn cysylltiad ag ef—

(i) bod gan y claf alluedd i gydsynio i'r taliadau uniongyrchol gael eu gwneud, a

(ii) bod y claf yn gallu rheoli'r taliadau uniongyrchol ei hun neu gyda'r cynhorthwy sydd ar gael iddo.

Cleifion sy'n ennill neu'n adennill galluedd: cydsynio ac adolygu

7.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo taliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud mewn cysylltiad â chlaf o dan reoliad 5 neu reoliad 6 a bo'r claf yn ennill neu'n adennill galluedd i gydsynio i daliadau uniongyrchol gael eu gwneud.

(2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl, adolygu'r arfer o wneud y taliadau uniongyrchol yn unol â rheoliad 18.

(3) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, caiff Gweinidogion Cymru barhau i wneud taliadau uniongyrchol i'r cynrychiolydd neu'r enwebai yn unol â chynllun gofal y claf—

(a) os yw'r claf yn cydsynio i'r taliadau uniongyrchol barhau i gael eu gwneud, a

(b) os yw'r claf a'r cynrychiolydd neu'r enwebai yn cytuno y bydd y cynrychiolydd neu'r enwebai yn parhau i reoli'r taliadau uniongyrchol ar ran y claf.

(4) Pan fo paragraff (1) yn gymwys ac na fo'r claf yn cydsynio i daliadau uniongyrchol gael eu gwneud, rhaid i Weinidogion Cymru stopio gwneud y taliadau uniongyrchol.

Personau enwebedig

8.—(1) Caiff y personau a ganlyn enwebu person arall ("enwebai") i gael taliadau uniongyrchol ar ran claf—

(a) claf, nad yw'n blentyn, y mae ganddo alluedd i gydsynio i daliadau uniongyrchol gael eu gwneud;

(b) cynrychiolydd claf.

(2) Pan fo claf wedi colli galluedd a, thra oedd ganddo alluedd, wedi dangos ei fod yn dymuno i berson penodol weithredu fel ei enwebai pe bai'n colli galluedd, caniateir penodi'r person hwnnw fel yr enwebai.

(3) Rhaid i enwebai y gwneir taliadau uniongyrchol iddo mewn cysylltiad â chlaf—

(a) bod yn gyfrifol fel y parti contractio am yr holl drefniadau contractiol yr ymrwymir iddynt er budd y claf ac a sicrheir drwy gyfrwng y taliadau uniongyrchol, a

(b) defnyddio'r taliadau uniongyrchol yn unol â chynllun gofal y claf.

(4) Cyn gwneud taliadau uniongyrchol i enwebai—

(a) rhaid i'r enwebai gytuno i reoli'r taliadau uniongyrchol ar ran y claf, a

(b) rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni bod yr enwebai yn berson addas i reoli'r taliadau uniongyrchol ar ran y claf.

(5) Os yw person sydd wedi enwebu enwebai yn unol â pharagraff (1) yn hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig ei fod yn dymuno tynnu'r enwebiad yn ôl neu ei newid, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried pa un ai i stopio gwneud y taliadau uniongyrchol.

(6) Pan fo paragraff (5) yn gymwys, rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl, adolygu'r arfer o wneud y taliadau uniongyrchol yn unol â rheoliad 18.

Ymgynghori cyn penderfyniad i wneud taliadau uniongyrchol

9.—(1) Cyn penderfynu pa un ai i wneud taliadau uniongyrchol i glaf, caiff Gweinidogion Cymru ymgynghori ag un neu ragor o'r personau a ganlyn—

(a) unrhyw un a nodwyd gan y claf fel person i ymgynghori ag ef at y diben;

(b) os yw'r claf yn berson 16 oed neu drosodd ond o dan 18 oed, person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y claf;

(c) y person sy'n ymwneud yn bennaf â gofal y claf;

(d) unrhyw berson arall sy'n darparu gofal ar gyfer y claf;

(e) unrhyw eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol neu eiriolwr iechyd meddwl annibynnol a benodwyd ar gyfer y claf;

(f) unrhyw dîm gofal cymdeithasol mewn awdurdod lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod anghenion gofal cymdeithasol y claf yn cael eu diwallu;

(g) unrhyw berson arall y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei fod yn gallu darparu gwybodaeth berthnasol.

(2) Cyn penderfynu pa un ai i wneud taliadau uniongyrchol i gynrychiolydd, caiff Gweinidogion Cymru ymgynghori ag un neu ragor o'r personau a ganlyn—

(a) y claf;

(b) unrhyw ddirprwy a benodwyd mewn cysylltiad â'r claf gan y Llys Gwarchod o dan adran 16(2)(b) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 sydd heb awdurdod i wneud penderfyniadau ar ran y claf mewn perthynas â'r materion y caniateir i daliadau uniongyrchol fod yn daladwy mewn cysylltiad â hwy;

(c) unrhyw roddai atwrneiaeth arhosol o fewn ystyr adran 9 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 mewn cysylltiad â'r claf ond sydd heb awdurdod i wneud penderfyniadau ar ran y claf mewn perthynas â materion y caniateir gwneud taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad â hwy;

(d) unrhyw un a enwyd gan y claf, pan oedd gan y claf alluedd, fel person i ymgynghori ag ef at y diben;

(e) unrhyw un neu ragor o'r personau a grybwyllir ym mharagraff (1)(c) i (g).

(3) Cyn penderfynu pa un ai i wneud taliadau uniongyrchol i enwebai, caiff Gweinidogion Cymru ymgynghori ag un neu ragor o'r personau a grybwyllir ym mharagraff (1)(a) i (g) a pharagraff (2)(a) i (c) a, phan fo'n berthnasol, (d).

(4) Yn y rheoliad hwn—

(a) mae i "eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol" yr ystyr a roddir i "independent mental capacity advocate" yn adran 35(1) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005(**12**), a

(b) mae i "eiriolwr iechyd meddwl annibynnol" yr ystyr a roddir i "independent mental health advocate" yn adran 130E o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**13**).

(**12**) 2005 p. 9. Mae adran 35 wedi ei diwygio gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007 (p. 12), adran 50 ac Atodlen 9, paragraff 3; Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7), adran 55(2) ac Atodlen 5, paragraff 134; ac O.S. 2018/195 (Cy. 44), rheoliad 28.

(**13**) 1983 p. 20; mewnosodwyd adran 130E gan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (mccc 7), adran 31.

Gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer asesu gallu i reoli taliadau uniongyrchol

10.—(1) Cyn penderfynu pa un ai i wneud taliadau uniongyrchol i glaf, o ran Gweinidogion Cymru—

(a) cânt ei gwneud yn ofynnol i'r claf ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud ag—

(i) stad iechyd y claf,

(ii) unrhyw gyflwr iechyd y mae taliadau uniongyrchol yn cael eu hystyried mewn cysylltiad ag ef, a

(iii) unrhyw gyfrif banc, cyfrif cymdeithas adeiladu, cyfrif Swyddfa'r Post neu gyfrif arall y cynigir caniatáu talu taliadau uniongyrchol iddo, a

(b) rhaid iddynt fod wedi eu bodloni bod y claf yn gallu rheoli (gweler paragraff (7)) daliadau uniongyrchol ar ei ben ei hun neu gyda'r cynhorthwy sydd ar gael iddo.

(2) Cyn penderfynu pa un ai i wneud taliadau uniongyrchol i gynrychiolydd, o ran Gweinidogion Cymru—

(a) cânt ei gwneud yn ofynnol i'r cynrychiolydd ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw gyfrif banc, cyfrif cymdeithas adeiladu, cyfrif Swyddfa'r Post neu gyfrif arall y cynigir caniatáu talu taliadau uniongyrchol iddo, a

(b) rhaid iddynt fod wedi eu bodloni bod y cynrychiolydd yn gallu rheoli taliadau uniongyrchol ar ei ben ei hun neu gyda'r cynhorthwy sydd ar gael iddo.

(3) Cyn penderfynu pa un ai i wneud taliadau uniongyrchol i gynrychiolydd, caiff Gweinidogion Cymru, yn benodol, ystyried—

(a) a yw'r claf yn y gorffennol, pan oedd gan y claf alluedd, wedi mynegi yn ysgrifenedig, neu drwy unrhyw ddulliau eraill sy'n ddealladwy, ddymuniad i daliadau uniongyrchol gael eu gwneud iddo neu er budd iddo,

(b) i'r graddau y mae modd canfod yn rhesymol, y credoau a'r gwerthoedd a fyddai'n debygol o ddylanwadu ar benderfyniad y claf ynghylch pa un ai i gydsynio i gael taliadau uniongyrchol ai peidio pe bai gan y claf alluedd, ac

(c) unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth arall a allai gynorthwyo Gweinidogion Cymru wrth iddynt ystyried a fyddai'r claf yn debygol o gydsynio i daliadau uniongyrchol gael eu gwneud pe bai'n gallu gwneud hynny, gan gynnwys dymuniadau a theimladau'r claf yn y gorffennol.

(4) Cyn penderfynu pa un ai i wneud taliadau uniongyrchol i enwebai, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) ei gwneud yn ofynnol i glaf sydd â galluedd ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â stad iechyd y claf neu unrhyw gyflwr iechyd y mae taliadau uniongyrchol yn cael eu hystyried mewn cysylltiad â hi neu ag ef, a

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r enwebai ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw gyfrif banc, cyfrif cymdeithas adeiladu, cyfrif Swyddfa'r Post neu gyfrif arall y cynigir caniatáu talu taliadau uniongyrchol iddo.

(5) Cyn penderfynu pa un ai i wneud taliadau uniongyrchol i enwebai, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) bod wedi eu bodloni bod yr enwebai yn gallu rheoli taliadau uniongyrchol ar ei ben ei hun neu gyda'r cynhorthwy a allai fod ar gael iddo;

(b) pan fo'r enwebai yn unigolyn, ei gwneud yn ofynnol i'r enwebai wneud cais am dystysgrif cofnod troseddol fanwl a ddyroddir o dan adran 113B o Ddeddf yr

Heddlu 1997(**14**) gan gynnwys gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud ag oedolion hyglwyf o dan adran 113BB o'r Ddeddf honno(**15**), oni bai bod yr enwebai yn unigolyn sy'n byw ar yr un aelwyd ag—

(i) y claf,

(ii) aelod o'r teulu a grybwyllir ym mharagraff (6), neu

(iii) cyfaill sy'n ymwneud â darpariaeth gofal y claf;

(c) pan fo'r enwebai yn gorff corfforedig neu'n gorff anghorfforedig o bersonau, ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn y mae'r enwebai wedi penderfynu y bydd ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r taliadau uniongyrchol o ddydd i ddydd ar ran yr enwebai, wneud cais am dystysgrif cofnod troseddol a ddyroddir o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 gan gynnwys gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud ag oedolion hyglwyf o dan adran 113BB o'r Ddeddf honno.

(6) Yr aelodau o'r teulu y cyfeirir atynt ym mharagraff (5)(b)(ii) yw—

(a) priod neu bartner sifil y claf;

(b) person sy'n byw gyda'r claf fel pe bai'n briod neu'n bartner sifil iddo;

(c) person sy'n un o'r canlynol i'r claf—

(i) rhiant, llys-riant neu riant-yng-nghyfraith,

(ii) mab neu ferch,

(iii) mab-yng-nghyfraith neu ferch-yng-nghyfraith,

(iv) llysfab neu lysferch,

(v) brawd neu chwaer,

(vi) modryb neu ewythr, neu

(vii) tad-cu/taid neu fam-gu/nain;

(d) priod neu bartner sifil unrhyw berson a bennir yn is-baragraff (c);

(e) unrhyw berson sy'n byw gydag unrhyw berson a bennir yn is-baragraff (c) fel pe bai'n briod neu'n bartner sifil i'r person hwnnw.

(7) Wrth benderfynu a yw claf, cynrychiolydd neu enwebai yn gallu rheoli taliadau uniongyrchol, caiff Gweinidogion Cymru ystyried, yn benodol—

(a) a fyddai'r claf, y cynrychiolydd neu'r enwebai yn berson addas i drefnu gydag unrhyw berson neu gorff i ddarparu, neu gynorthwyo i ddarparu, unrhyw wasanaethau a sicrheir drwy gyfrwng taliadau uniongyrchol ar gyfer y claf;

(b) a yw'r claf, y cynrychiolydd neu'r enwebai wedi gallu rheoli taliadau uniongyrchol neu daliad uniongyrchol gofal cymdeithasol;

(c) a yw'r claf, y cynrychiolydd neu'r enwebai yn gallu cymryd pob cam rhesymol i atal defnydd twyllodrus o'r taliadau uniongyrchol.

(**14**) 1997 p. 50 ("Deddf 1997"); mewnosodwyd adran 113B yn Neddf 1997 gan Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), adran 163; fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p. 47), adran 63 ac Atodlen 9, paragraff 14(3); gan Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006 (p. 52), adran 378 ac Atodlen 16, paragraff 149; gan Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 (p. 26), adran 112 a Rhan 8 o Atodlen 8; gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (p. 9), adrannau 80(1) a 82(1) i (3), ac adran 115(2) a Rhan 5 o Atodlen 10; gan Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), adran 15 ac Atodlen 8, paragraff 60; gan Ddeddf y Lluoedd Arfog 2021 (p. 35), adran 12 ac Atodlen 5, paragraff 10; gan O.S. 2009/203, erthygl 4; a chan O.S. 2012/3006, erthygl 37(c).

(**15**) Mewnosodwyd adran 113BB yn Neddf yr Heddlu 1997 gan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, adran 63 ac Atodlen 9, paragraff 14(4); ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012, adran 115(2) a chan Ran 5 o Atodlen 10.

Cynllun gofal a chydgysylltydd gofal

11.—(1) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud taliadau uniongyrchol oni bai eu bod—

(a) wedi llunio cynllun gofal—

(i) sy'n nodi anghenion iechyd y claf, a

(ii) sy'n pennu'r gwasanaethau sydd i'w sicrhau drwy daliadau uniongyrchol,

(b) wedi cynghori'r claf a, phan fo'n berthnasol, gynrychiolydd neu enwebai'r claf—

(i) a oes unrhyw risgiau sylweddol posibl yn codi mewn perthynas â gwneud taliadau uniongyrchol i'r claf neu mewn cysylltiad ag ef,

(ii) beth fyddai canlyniadau posibl unrhyw risgiau o'r fath, a

(iii) a oes unrhyw ddulliau cymesur o liniaru'r risgiau,

(c) wedi cytuno â'r claf a, phan fo'n berthnasol, gynrychiolydd neu enwebai'r claf, ar weithdrefn ar gyfer rheoli pob un o'r risgiau a nodir yn unol ag is-baragraff (b) ac wedi cynnwys y weithdrefn y cytunwyd arni yn y cynllun gofal, a

(d) wedi eu bodloni—

(i) y gall yr anghenion iechyd a nodir yng nghynllun gofal y claf gael eu diwallu gan y gwasanaethau a bennir yn y cynllun gofal, a

(ii) y bydd y swm a gynrychiolir gan y taliadau uniongyrchol yn ddigonol i ddarparu ar gyfer cost lawn pob un o'r gwasanaethau a bennir yn y cynllun gofal.

(2) Caiff y risgiau a grybwyllir ym mharagraff (1)(b) gynnwys, yn benodol—

(a) risgiau i iechyd y claf;

(b) risgiau meddygol neu lawfeddygol sy'n deillio o sicrhau math penodol o wasanaeth;

(c) risgiau sy'n deillio o'r berthynas gyflogaeth pan ddefnyddir taliadau uniongyrchol i sicrhau gwasanaethau gan berson a gyflogir gan y claf neu ar ei ran;

(d) risgiau sy'n deillio o ddarparwr gwasanaethau, a sicrhawyd drwy gyfrwng taliadau uniongyrchol, yn gweithredu gyda gweithdrefn annigonol, neu heb weithdrefn, ar gyfer ymchwilio i gwynion sy'n deillio o ddarparu'r gwasanaethau;

(e) risgiau sy'n deillio o ddarparwr gwasanaethau, a sicrhawyd drwy gyfrwng taliadau uniongyrchol, yn gweithredu gyda sicrwydd yswiriant neu indemniad annigonol, neu heb sicrwydd yswiriant neu indemniad, ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir;

(f) risgiau y gallai arian sy'n cael ei dalu drwy daliadau uniongyrchol fynd ar goll, cael ei gamddefnyddio neu fod yn agored i dwyll.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru enwebu cydgysylltydd gofal sydd i fod yn gyfrifol am y swyddogaethau a ganlyn mewn cysylltiad â'r claf—

(a) rheoli'r asesiad o anghenion iechyd y claf ar gyfer y cynllun gofal;

(b) sicrhau—

(i) bod cytundeb y claf neu ei gynrychiolydd wedi ei gael mewn perthynas â'r materion a bennir ym mharagraff (12)(a),

(ii) bod cadarnhad wedi ei gael bod y claf neu ei gynrychiolydd yn cydnabod y mater a bennir ym mharagraff (12)(b), a

(iii) yr adroddir am gytundeb a chadarnhad o'r fath i Weinidogion Cymru;

(c) monitro, neu drefnu ar gyfer monitro—

(i) gwneud taliadau uniongyrchol, a

(ii) cyflyrau iechyd y claf y mae'r taliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud mewn cysylltiad â hwy;

(d) trefnu ar gyfer adolygu'r taliadau uniongyrchol;

(e) cadw cysylltiad rhwng y claf, neu gynrychiolydd neu enwebai'r claf, a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r taliadau uniongyrchol.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru bennu pob un o'r canlynol yn y cynllun gofal—

(a) yr anghenion iechyd sydd i'w diwallu gan wasanaethau a sicrheir drwy gyfrwng taliadau uniongyrchol a'r canlyniadau iechyd y bwriedir iddynt gael eu cyflawni drwy ddarparu'r gwasanaethau;

(b) y gwasanaethau sydd i'w sicrhau drwy gyfrwng taliadau uniongyrchol y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i ddiwallu anghenion iechyd y claf;

(c) y swm sydd i'w dalu drwy daliadau uniongyrchol a'r ysbeidiau y mae arian i'w dalu arnynt;

(d) enw'r person sy'n gydgysylltydd gofal mewn cysylltiad â'r claf;

(e) enw'r person sydd i fod yn gyfrifol am fonitro pob un o gyflyrau iechyd y claf y caniateir gwneud taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad â hwy;

(f) dyddiad disgwyliedig yr adolygiad cyntaf a grybwyllir yn rheoliad 18(2)(a) (monitro ac adolygu taliadau uniongyrchol) a manylion sut y bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal;

(g) y cyfnod hysbysu sydd i fod yn gymwys, os bydd Gweinidogion Cymru, ar ôl adolygiad o dan reoliad 18(2)(a), yn penderfynu gostwng swm y taliadau uniongyrchol, neu'n penderfynu stopio eu gwneud.

(5) Nid yw'r gwasanaethau y caniateir eu sicrhau drwy gyfrwng taliadau uniongyrchol yn cynnwys—

(a) gwasanaethau a drefnir neu a ddarperir o dan yr adrannau a ganlyn o Ddeddf 2006—

(i) adran 41 (gwasanaethau meddygol sylfaenol)(**16**),

(ii) adran 42 (contractau gwasanaethau meddygol cyffredinol), neu

(iii) adran 50 (trefniadau gan fyrddau iechyd lleol ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol);

(b) gwasanaethau y mae ffi fel arall yn daladwy mewn cysylltiad â hwy yn rhinwedd yr adrannau a ganlyn o Ddeddf 2006—

(i) adran 121 (ffioedd am gyffuriau, meddyginiaethau neu declynnau neu wasanaethau fferyllol),

(ii) adran 125 (ffioedd deintyddol), a

(iii) adran 128 (ffioedd am declynnau optegol);

(c) gweithdrefnau llawfeddygol wedi eu cynllunio;

(d) gwasanaethau a ddarperir mewn cysylltiad â brechu, imiwneiddio neu sgrinio (gan gynnwys rhaglenni i'r boblogaeth gyfan);

(e) cymryd rhan yn Rhaglen Mesur Plant Cymru;

(f) gwasanaethau sy'n cynnwys cyflenwi neu gaffael alcohol neu dybaco;

(**16**) Diwygiwyd adran 41 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7), adran 306(4) ac Atodlen 21, paragraff 26.

(g) darparu gwasanaethau neu gyfleusterau mewn perthynas â gamblo.

(6) Ni chaniateir defnyddio taliadau uniongyrchol at ddiben ad-dalu dyled, pa un ai a aed i'r ddyled honno mewn cysylltiad â gwasanaeth a bennir yn y cynllun gofal neu cyn dechrau'r trefniant taliadau uniongyrchol ai peidio.

(7) Ni chaiff Gweinidogion Cymru ganiatáu i wasanaeth a bennir mewn cynllun gofal gael ei ddarparu gan berson cysylltiedig a enwir yn y cynllun gofal ond os ydynt wedi eu bodloni bod hynny'n angenrheidiol—

(a) i ddiwallu angen y claf am y gwasanaeth hwnnw, neu

(b) i hybu lles plentyn.

(8) Ym mharagraff (7), ystyr "person cysylltiedig" yw rhywun sy'n byw ar yr un aelwyd â'r claf (pa un a yw'r person hwnnw'n enwebai ai peidio) ac sydd naill ai—

(a) yn aelod o'r teulu a grybwyllir yn rheoliad 10(6), neu

(b) yn gyfaill i'r claf.

(9) Os yw Gweinidogion Cymru wedi ystyried cynnwys gwasanaeth yn y cynllun gofal fel gwasanaeth sydd i'w sicrhau drwy gyfrwng taliadau uniongyrchol ond yn penderfynu peidio â'i gynnwys—

(a) caiff claf neu gynrychiolydd—

(i) gofyn i Weinidogion Cymru ailystyried eu penderfyniad, a

(ii) cyflwyno tystiolaeth neu wybodaeth berthnasol i Weinidogion Cymru ei hystyried fel rhan o'r ailystyriaeth honno;

(b) os gwneir cais o dan is-baragraff (a)(i), rhaid i Weinidogion Cymru—

(i) ailystyried eu penderfyniad, a

(ii) ystyried unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth berthnasol a gyflwynir o dan is-baragraff (a)(ii).

(10) Rhaid i Weinidogion Cymru roi gwybod i'r claf ac unrhyw gynrychiolydd yn ysgrifenedig am ganlyniad yr ailystyriaeth a datgan y rhesymau dros eu penderfyniad.

(11) Ni chaiff Gweinidogion Cymru ailystyried mwy nag unwaith yn unol â pharagraff (9).

(12) Cyn penderfynu gwneud taliadau uniongyrchol, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cael cytundeb y claf neu ei gynrychiolydd—

(i) y bydd anghenion iechyd y claf a bennir yn y cynllun gofal yn cael eu diwallu gan y gwasanaethau a bennir yn y cynllun gofal, a

(ii) bod swm y taliad uniongyrchol yn ddigonol i dalu cost lawn y gwasanaethau hynny, a

(b) cael cadarnhad bod y claf neu ei gynrychiolydd yn cydnabod y bydd gofynion y claf yn ddarostyngedig i adolygiad o dan reoliad 18(2).

Gwybodaeth, cyngor neu gymorth arall

12.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud trefniadau i sicrhau bod gwybodaeth, cyngor neu gymorth arall ynghylch taliadau uniongyrchol, gan gynnwys y cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â chael taliadau uniongyrchol, ar gael i'r claf, neu ei gynrychiolydd neu ei enwebai, cyn i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad i wneud taliadau uniongyrchol.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd wneud trefniadau i sicrhau bod gwybodaeth, cyngor neu gymorth arall ar gael i'r claf, neu ei gynrychiolydd neu ei enwebai, ar ôl i benderfyniad gael ei wneud i wneud taliadau uniongyrchol.

(3) Caiff y trefniadau ar gyfer gwybodaeth, cyngor neu gymorth arall a grybwyllir ym mharagraffau (1) a (2) gynnwys, yn benodol—

(a) pennu swm taliad uniongyrchol claf a sut y mae'r taliad hwn yn cael ei gyfrifo;

(b) sut y gall claf, cynrychiolydd neu enwebai ofyn am adolygiad o daliadau uniongyrchol a chynllun gofal y claf;

(c) yr amgylchiadau pryd na chaiff claf fod yn gymwys mwyach i gael taliadau uniongyrchol;

(d) y cyfyngiadau ar sut y caniateir gwario taliadau uniongyrchol;

(e) y broses sydd ynghlwm wrth lunio cynllun gofal a chytuno arno;

(f) darpariaeth ar gyfer gwasanaethau eirioli, lle y mae trydydd parti yn cynorthwyo claf, cynrychiolydd neu enwebai mewn perthynas â thelerau cynllun gofal, neu â rheoli unrhyw gontract y darperir gwasanaethau a sicrheir drwy gyfrwng taliadau uniongyrchol odano, neu fel arall;

(g) darpariaeth ar gyfer comisiynu gwasanaethau, lle y mae person yn cynorthwyo'r claf, y cynrychiolydd neu'r enwebai i gaffael gwasanaethau y caniateir eu sicrhau drwy gyfrwng taliadau uniongyrchol;

(h) darpariaeth ar gyfer gwasanaethau cyflogres, gwasanaethau hyfforddiant, gwasanaethau salwch neu wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â chyflogaeth i gynorthwyo claf, cynrychiolydd neu enwebai mewn perthynas â chyflogai y mae'r claf, y cynrychiolydd neu'r enwebai yn ei gyflogi i ddarparu gwasanaethau a sicrheir drwy gyfrwng taliadau uniongyrchol ar gyfer y claf;

(i) pan fo'r claf hefyd yn cael taliad uniongyrchol gofal cymdeithasol, wybodaeth am integreiddio'r ddau daliad uniongyrchol a'r trefniadau rhwng Gweinidogion Cymru ac awdurdod lleol ar gyfer cydweithio a chydweithredu.

(4) Os yw'r cynllun gofal yn pennu gofyniad ar gyfer gwybodaeth, cyngor neu gymorth arall, caiff y cymorth hwnnw fod yn wasanaeth y caniateir gwneud taliadau uniongyrchol mewn cysylltiad ag ef.

Penderfyniad i wneud taliadau uniongyrchol

13.—(1) Ni chaiff Gweinidogion Cymru benderfynu gwneud taliad uniongyrchol i glaf neu mewn cysylltiad ag ef ond os ydynt—

(a) wedi rhoi sylw i'r materion a bennir yn rheoliadau 3 i 12, a

(b) wedi eu bodloni bod gofynion y rheoliadau hynny wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r claf.

(2) Nid oes dim yn y rheoliad hwn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud taliad uniongyrchol.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad o dan baragraff (1), rhaid iddynt—

(a) rhoi gwybod i'r claf ac unrhyw gynrychiolydd neu enwebai yn ysgrifenedig am y penderfyniad, a

(b) os peidio â gwneud taliad uniongyrchol yw'r penderfyniad, ddatgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad o dan baragraff (1) i beidio â gwneud taliad uniongyrchol—

(a) caiff claf, unrhyw gynrychiolydd neu unrhyw enwebai—

(i) gofyn i Weinidogion Cymru ailystyried eu penderfyniad, a

(ii) cyflwyno tystiolaeth neu wybodaeth berthnasol i Weinidogion Cymru ei hystyried fel rhan o'r ailystyriaeth honno;

(b) os gwneir cais o dan is-baragraff (a)(i), rhaid i Weinidogion Cymru—

(i) ailystyried eu penderfyniad, a

(ii) ystyried unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth berthnasol a gyflwynir o dan is-baragraff (a)(ii).

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru roi gwybod i'r claf ac unrhyw gynrychiolydd neu enwebai yn ysgrifenedig am ganlyniad yr ailystyriaeth a datgan y rhesymau dros eu penderfyniad.

(6) Ni chaiff Gweinidogion Cymru ailystyried mwy nag unwaith yn unol â pharagraff (4).

Amodau ar ôl penderfyniad i wneud taliadau uniongyrchol: cyfrifon a gofynion archwilio

14.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu gwneud taliadau uniongyrchol i glaf neu mewn cysylltiad ag ef.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud taliadau uniongyrchol i gyfrif a nodir gan dalai ond os ydynt wedi eu bodloni bod y cyfrif yn bodloni'r gofynion a bennir—

(a) pan fo'r cyfrif yn gyfrif sy'n cael ei ddal yn enw'r talai gyda banc, cymdeithas adeiladu neu Swyddfa'r Post, ym mharagraff (3), neu

(b) pan fo'r cyfrif yn gyfrif a reolir, ym mharagraff (4).

(3) O ran cyfrif a grybwyllir ym mharagraff (2)(a)—

(a) ni chaiff fod yn gyfrif ar y cyd, oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi rhoi cymeradwyaeth ymlaen llaw;

(b) ni chaniateir ei ddefnyddio ond at ddiben dal arian sydd wedi ei adneuo drwy daliadau uniongyrchol;

(c) ni chaniateir mynediad ato ond i bersonau a enwir sydd wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru;

(d) rhaid iddo allu cael ei archwilio (drwy gyfeirio at gyfriflenni sy'n nodi ffynhonnell arian a adneuir a chyrchfan arian a godir o'r cyfrif) gan—

(i) Gweinidogion Cymru, neu

(ii) unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru;

(e) rhaid iddo alluogi'r monitro a'r adolygu a grybwyllir yn rheoliad 18(1)(a) a (7)(c) i gael eu cynnal.

(4) O ran cyfrif a grybwyllir ym mharagraff (2)(b)—

(a) rhaid iddo allu cael ei archwilio (drwy gyfeirio at gyfriflenni sy'n nodi ffynhonnell arian a adneuir a chyrchfan arian a godir o'r cyfrif) gan—

(i) Gweinidogion Cymru, neu

(ii) unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru;

(b) rhaid iddo alluogi'r monitro a'r adolygu a grybwyllir yn rheoliad 18(1)(a) a (7)(c) i gael eu cynnal.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i dalai roi mynediad iddynt at wybodaeth ynghylch cyfrif y mae taliad uniongyrchol yn cael ei wneud iddo, neu y caniateir gwneud taliad uniongyrchol iddo.

(6) Nid yw paragraffau (1) i (5) yn gymwys pan wneir taliad uniongyrchol untro i glaf neu mewn cysylltiad ag ef.

(7) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod taliad uniongyrchol untro yn briodol o dan amgylchiadau achos unigol, caniateir gwneud y taliad hwnnw i gyfrif banc personol y talai.

(8) Yn y rheoliad hwn ac yn rheoliad 15, ystyr "taliad uniongyrchol untro" yw—

(a) taliad am un eitem neu wasanaeth, neu

(b) un taliad a wneir ar gyfer dim mwy na 5 eitem neu wasanaeth pan mai'r taliad hwnnw yw'r unig daliad y byddai claf yn ei gael gan Weinidogion Cymru mewn unrhyw flwyddyn ariannol.

Amodau ar ôl penderfyniad i wneud taliadau uniongyrchol: amodau ar gyfer sicrhau gwasanaethau

15.—(1) O ran talai—

(a) rhaid iddo ddefnyddio'r taliadau uniongyrchol yn unol â chynllun gofal y claf, yn benodol i sicrhau darpariaeth yr holl wasanaethau a bennir yn y cynllun gofal, a

(b) ni chaiff ddefnyddio'r taliadau uniongyrchol at unrhyw ddiben heblaw sicrhau'r gwasanaethau hynny.

(2) Cyn sicrhau gwasanaethau gan ddarparwr gan ddefnyddio taliadau uniongyrchol, rhaid i'r talai ei fodloni ei hun—

(a) bod y darparwr—

(i) os yw'n darparu gwasanaeth rheoleiddiedig, wedi ei gofrestru â Gweinidogion Cymru fel darparwr gwasanaeth mewn cysylltiad â'r gwasanaeth hwnnw, neu

(ii) os yw'n darparu gwasanaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr fod wedi ei gofrestru fel aelod o broffesiwn a reoleiddir gan gorff a grybwyllir yn adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(**17**), wedi cydymffurfio â'r gofyniad hwnnw, a

(b) os yw'n ofynnol i'r darparwr weithredu o dan sicrwydd yswiriant neu indemniad, fod y sicrwydd yswiriant neu indemniad hwnnw—

(i) yn gymesur â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth, a

(ii) yn briodol fel arall mewn perthynas â'r gwasanaeth a ddarperir i'r claf.

(3) Os yw'r talai'n gofyn i Weinidogion Cymru ymgymryd â'r camau a grybwyllir ym mharagraff (2) mewn cysylltiad ag unrhyw ddarparwr gwasanaethau penodol, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyflawni'r camau hynny, a

(b) cadarnhau i'r talai a yw'r darparwr yn bodloni'r gofynion a nodir ym mharagraff (2).

(**17**) 2002 p. 17 ("Deddf 2002"). Mae adran 25(3) o Ddeddf 2002 wedi ei diwygio gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14), adran 127 ac Atodlen 10, paragraff 17(2); gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7), adran 230 ac Atodlen 15, paragraff 56(b); gan Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017 (p. 16), adran 56 ac Atodlen 4, paragraff 2(2); a chan O.S. 2010/231, erthygl 68 ac Atodlen 4, paragraff 10(2).

(4) Ni chaiff talai ond defnyddio taliadau uniongyrchol i sicrhau gwasanaeth gan berson a grybwyllir yn rheoliad 11(7) (person cysylltiedig) os yw'r cynllun gofal yn pennu y caniateir i'r person hwnnw ddarparu'r gwasanaeth.

(5) Rhaid i dalai, ar gais, neu ar ysbeidiau a bennir gan Weinidogion Cymru, ddarparu gwybodaeth neu dystiolaeth i Weinidogion Cymru yn ymwneud ag—

(a) stad iechyd y claf, neu stad unrhyw gyflwr sydd ganddo, y mae taliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud mewn cysylltiad â hi neu ag ef, neu

(b) y canlyniadau iechyd a ddisgwylir o ddarparu unrhyw wasanaeth a sicrheir gan ddefnyddio'r taliadau uniongyrchol.

(6) Rhaid i'r talai, o fewn cyfnod rhesymol, hysbysu Gweinidogion Cymru pan fydd y stad iechyd neu amgylchiad perthnasol arall sy'n ymwneud â'r claf yn newid yn sylweddol.

(7) Ac eithrio yn achos cyfrif a reolir, rhaid i dalai sicrhau, o ran y cyfrif y mae taliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud iddo—

(a) nad yw ond yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â sicrhau gwasanaethau drwy gyfrwng taliadau uniongyrchol, a

(b) dim ond personau a enwir sydd wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru sydd â mynediad ato.

(8) Rhaid i dalai, ar gais, neu ar ysbeidiau a bennir gan Weinidogion Cymru, ddarparu gwybodaeth neu dystiolaeth i Weinidogion Cymru yn ymwneud ag—

(a) y cyfrif a grybwyllir ym mharagraff (7), a

(b) y gwasanaethau a sicrheir drwy gyfrwng taliadau uniongyrchol.

(9) Caiff Gweinidogion Cymru osod ar dalai y naill neu'r llall o'r amodau a ganlyn, neu'r ddau, mewn cysylltiad â thalu a rheoli taliadau uniongyrchol—

(a) cyfyngiad sy'n atal y talai rhag sicrhau gwasanaeth gan berson penodol;

(b) gofyniad bod y talai yn darparu unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol, fel y'i disgrifir ym mharagraff (6) neu (8), neu yn rheoliad 10(1)(a), (2)(a) neu (4)(b).

(10) Os nad yw unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth sy'n ofynnol yn rhinwedd y rheoliad hwn neu reoliad 10 o fewn meddiant neu reolaeth y talai, rhaid i'r talai gymryd pob cam rhesymol i'w chael a'i darparu i Weinidogion Cymru.

(11) Nid yw paragraffau (7) ac (8)(a) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud taliad uniongyrchol untro a bo'r taliad hwnnw'n cael ei adneuo i gyfrif personol y talai yn unol â rheoliad 14(7).

Darparu gwybodaeth

16.—(1) Pan fo'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru, rhaid i'r wybodaeth—

(a) cael ei darparu yn ysgrifenedig, a chaiff hyn gynnwys ffurf electronig;

(b) bod yn glir ac yn ddarllenadwy, ac mewn fformat a bennir gan Weinidogion Cymru;

(c) pan fo'r wybodaeth yn cael ei dal gan drydydd parti, gael ei chyflwyno ar y cyd ag unrhyw awdurdodiad sy'n angenrheidiol i alluogi Gweinidogion Cymru i gael yr wybodaeth honno'n uniongyrchol gan y trydydd parti hwnnw.

(2) Mewn unrhyw achos pan na fo person yn gallu darparu'r wybodaeth ofynnol, rhaid i'r person hwnnw ddarparu, hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred, ddatganiad sy'n nodi ble mae'r wybodaeth yn cael ei dal.

Swm y taliadau uniongyrchol

17.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod swm y taliadau uniongyrchol sy'n cael ei dalu i glaf neu mewn cysylltiad ag ef yn ddigonol i ddarparu ar gyfer cost lawn pob un o'r gwasanaethau a bennir yn y cynllun gofal.

